

## Crynodeb

---

# Y Bont: newid agweddau a chymunedau drwy droi sgiliau a phrofiad yn enillion ar gyfer sefydliadau hunan-eirioli a hunan-eiriolwyr

## Am y rhaglen DRILL

---

Roedd DRILL (Disability Research on Independent Living and Learning) yn rhaglen arloesol 5 mlynedd, ledled y DU dan arweiniad pobl anabl, ar gyfer pobl anabl ac yn cael ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Wedi'i lansio yn 2015, roedd y rhaglen yn cael ei rheoli gan bartneriaeth o Disability Action Northern Ireland, Disability Rights UK, Anabledd Cymru ac Inclusion Scotland.

Nod y rhaglen oedd datblygu gwell tystiolaeth am ddulliau sy'n galluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol. Gellir defnyddio canfyddiadau'r prosiectau a gyllidwyd i lywio darpariaeth yn y dyfodol ar draws ystod eang o feysydd polisi, a rhoi mwy o lais i bobl anabl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Mae hwn yn un o gyfres o grynodedau o'r prosiectau a gefnogwyd gan DRILL. Mae adroddiadau terfynol, pecynnau cymorth a chrynodebau o'r holl brosiectau ar gael ar wefan DRILL yn [www.drilluk.org.uk](http://www.drilluk.org.uk).

### Trosolwg o Brosiect Y Bont

Nod y prosiect hwn oedd dod o hyd i atebion a llwybrau penodol i gynhyrchu incwm cynaliadwy a chyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu.

## Dull

---

Cynhaliodd prosiect Y Bont bedwar grŵp ffocws a oedd yn cynnwys sefydliadau hunan-eiriolaeth o wahanol rannau o Gymru a oedd wedi gwneud prosiectau'n ddiweddar.

O'r grwpiau ffocws hyn, cynhyrchwyd a threialwyd y pecyn cymorth hunan-eiriolaeth gyda dau brosiect hunan-eiriolaeth a gyda phobl oedd am ddechrau grŵp Pobl yn Gyntaf newydd.

## Canfyddiadau

---

Mae gan fyd busnes ei systemau iaith, diwylliant, deddfwriaeth, cyllid a'i gymorth ei hun. Mae'n her i unrhyw un dorri i mewn i'r byd hwnnw, yn enwedig y rhai hynny sydd ag anableddau dysgu.

Mae gwasanaethau cymorth busnes a ariennir gan y Llywodraeth yn eithrio pobl ag anableddau dysgu drwy eu defnydd iaith a'u diffyg adnoddau i allu cynnig amser a hyblygrwydd i ddarparu'r cymorth angenrheidiol.

Mae llawer o bobl ag anableddau dysgu yn profi disgwyliadau isel gan y bobl o'u hamgylch, sy'n golygu eu bod yn credu nad yw ennill arian ar eu cyfer nhw.

Nid yw cynlluniau cyfredol i annog hunangyflogaeth i bobl sy'n derbyn budd-daliadau megis Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) yn gweddu'n dda i bobl ag anableddau dysgu, gan fod datblygu busnes yn cymryd llawer mwy o amser na blwyddyn.

Pwynt gwerthu unigryw sefydliad hunan-eiriolaeth yw profiad byw yr aelodau. Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod yr aelodau a gyflogwyd ar flaen a chanol y llwyfan.

Roedd cydweithio yn hanfodol er mwyn i aelodau'r tîm gael dealltwriaeth gyffredin o'r hyn yr oeddent yn ei ddysgu a'i roi ar waith.

Roedd cymryd risgiau yn un o'r meysydd datblygu meddwl fel busnes yr oedd yn rhaid i grwpiau ac unigolion weithio arno. Gall cymryd risg o adolygu budd-daliadau wrth newid yr hyn rydych chi'n ei wneud atal pobl rhag cymryd risgiau.

## Canfyddiadau (parhad)

---

Cymorth anweledig, nad yw pobl yn sylweddoli eu bod yn ei roi neu'n ei dderbyn, megis bod ar gael i ateb cwestiynau bach pan fyddant yn codi, dangos i rywun ble i ddod o hyd i'r ateb i gwestiwn ffeithiol a gallu rhoi anogaeth os bydd pethau'n mynd o chwith. Gall hyn wneud y gwahaniaeth rhwng llwyddiant a methiant personol a busnes.

Mae'r modelau safonol ar gyfer darparu cymorth dechrau busnes yn annhebygol o weithio gyda phobl sydd ag anableddau dysgu am nad ydynt yn ddigon hyblyg ac am nad ydynt yn darparu'r gefnogaeth anweledig ddigonol.

Yn aml, nid oes gan bobl sydd ag anableddau dysgu lawer o hunanhyder; ac mae ganddynt hunan-barch isel. Mae sefydliadau hunan-eiriolaeth yn cynnig cyfle i newid hyn drwy ddefnyddio'r sgiliau sydd ganddynt a'r gallu i ddysgu sgiliau newydd.

## Argymhellion

---

Fe wnaeth prosiect Y Bont amlinellu llawer o argymhellion, ac mae rhai ohonynt wedi'u rhestru yma. Mae'r holl argymhellion wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau llawn sy'n cael eu cysylltu isod.

- Mae angen i'r Llywodraeth, gwasanaethau cymorth busnes a gwasanaethau sydd â'r nod o gefnogi pobl ag anableddau dysgu helpu hunan-eiriolwyr a'u sefydliadau i gael eu derbyn i fyd busnes
- Bydd angen esbonio geiriau jargon a bydd angen datblygu meddylfryd busnes dros amser. Mae'r pecyn cymorth yn darparu rhestr o eiriau busnes a 'dull blociau busnes' i helpu hyn
- Mae Ymchwil Gweithredu Cyfranogol yn ddull effeithiol o gynnwys pobl yr effeithir arnynt gan ymchwil yn yr ymchwil sy'n cael ei gynnal
- Rhaid cydnabod a deall cefnogaeth anweledig. Mae angen nodi ffyrdd o greu cyfleoedd cymorth anweledig, heb eu ffurfioli i rywbeth penodol neu weladwy gan y gallai hyn wneud i bobl deimlo'n llai medrus ac effeithio ar berthnasoedd o fewn y tîm
- Mae angen newidiadau i'r Credyd Cynhwysol, gan nad yw ar hyn o bryd yn darparu rhwyd diogelwch ariannol ddibynadwy i entrepreneuriaid anabl
- Rhaid i fusnesau ddathlu llwyddiannau pobl sydd ag anableddau dysgu, gan eu gwneud yn fodolau rôl a sicrhau eu bod yn cael sylw yn y busnes

- Rhaid i ymgynghorwyr gyrfa, hyfforddwyr swyddi a gwasanaethau cymorth siarad am ddechrau busnes wrth drafod dyfodol a gwaith pobl anabl.

## Adroddiad terfynol

Y Bont: newid agweddau a chymunedau drwy droi sgiliau a phrofiad yn enillion ar gyfer sefydliadau hunan-eirioli a hunan-eiriolwyr

Cliciwch ar enw'r adroddiad i ddarllen yr adroddiadau llawn, sydd wedi eu rhannu'n chwe adran.

## Partneriaid y prosiect


Cwmni Buddiannau  
Cymunedol Barod



Social Firms Wales

socialfirmswales  
enterprise, employment, empowerment

Pobl yn Gyntaf Sir  
Gaerfyrddin



My Life My Choice



People First Dorset

